**Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2022-2027 CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

Cofnodion cyfarfod Hybrid y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2022-2027 a gynhaliwyd ddydd Mercher 24 Mai 2023 am 5.00pm.

Cafodd y cyfarfod yma'i ffrydio'n fyw, ac mae'r manylion i'w gweld yma

**Roedd y Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol canlynol, sy'n Aelodau o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2022-2027 yn bresennol yn Siambr y Cyngor:-**

Y Cynghorydd J Edwards (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Barry Stephens (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd S Morgans
Y Cynghorydd R Davis

**Roedd y Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol canlynol, sy'n Aelodau o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2022-2027 yn bresennol ar-lein:-**

Y Cynghorydd J. Bonetto
Y Cynghorydd S Evans
Y Cynghorydd S Evans
Y Cynghorydd R Bevan

**Swyddogion yn bresennol:**

Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Ms S Daniel – Blaen Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd M Ashford | Y Cynghorydd C Middle |
| Y Cynghorydd K Morgan | Y Cynghorydd W Owen |
| Y Cynghorydd G L Warren | Y Cynghorydd K Webb |

**1 Datganiadau o Fuddiant**

Dim

**2 Cofnodion**

**PENDERFYNWYD:** Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2023 eu cadarnhau'n gofnod cywir o'r cyfarfod.

**3 Dolenni Ymgynghori**

Atgoffodd y Blaen Swyddog yr Aelodau o'r ymgynghoriadau a oedd yn agored i Aelodau ymateb iddyn nhw pe hoffen nhw wneud hynny.

**4 Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yr adroddiad i'r Aelodau, a oedd yn rhoi cyfle iddyn nhw ymateb yn ffurfiol i'r Ymgynghoriad ar y drafft o Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd (Atodiad A). Mae hyn yn gam gofynnol gan y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021 cyn i'r strategaeth gael ei chymeradwyo gan y Cyngor ym mis

Gorffennaf 2023

Dywedodd wrth yr Aelodau fod y Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol gyflawni nifer o ddyletswyddau o ran cyfranogiad, gan gynnwys yr isod:

- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r swyddogaethau y mae'r Cyngor yn eu cyflawni ymhlith trigolion lleol, busnesau ac ymwelwyr.
- Rhannu gwybodaeth am sut i fynd ati i ddod yn aelod etholedig – neu gynghorydd – a beth mae bod yn gynghorydd yn ei olygu
- Gwella'r modd i gyrchu gwybodaeth am benderfyniadau sydd wedi'u gwneud, neu a fydd yn cael eu gwneud gan y Cyngor
- Darparu a hyrwyddo cyfleoedd i drigolion roi adborth i'r Cyngor, gan gynnwys sylwadau, cwynion a mathau eraill o sylwadau
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth o fanteision defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â thrigolion.

Cyfeiriodd Aelod at Adran 3 yr adroddiad a gofynnodd sut mae mesur llwyddiant, a beth yw'r meincnodau o ran sicrhau bod targedau'n cael eu bwrw. Ymatebodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, bod tystiolaeth ar gael o gyfranogiad y cyhoedd drwy ein hymgynghoriadau, lle ceisir barn ar benderfyniadau allweddol neu newidiadau i wasanaethau. Serch hynny , mae modd i feincnodi fod yn dasg anodd oherwydd ei bod hi'n haws sicrhau cyfranogiad y cyhoedd pan fydd pwnc anodd yn cael ei drafod. Un o'r gwelliannau mae'r Cyngor yn ei ystyried yw rhoi cyfle i'r cyhoedd ddylanwadu ar raglenni gwaith y Pwyllgor. Ychwanegodd fod data ar gael mewn perthynas â'r nifer sy'n gwylio darllediadau byw o gyfarfodydd, ond roedd yn cydnabod bod llawer mwy y gallai'r Cyngor ei wneud wrth edrych i'r dyfodol.

Gwnaeth Aelod sylwadau ar hygyrchedd y Strategaeth, gan awgrymu bod fersiwn hawdd ei darllen, a fyddai'n fwy deniadol ac yn haws ei deall, ar gael i'r cyhoedd.

Gofynnodd Aelod a oedd modd i'r Cyngor wneud rhagor i gynnwys y cyhoedd yn y broses Graffu er mwyn sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn effro i'r cyfarfodydd.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, fod llawer o feysydd mae modd gwella arnyn nhw, megis hyrwyddo Blogiau Cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu a gyhoeddwyd yn ddiweddar, a byddwn ni'n parhau i adeiladu ar y rhain. Er bod y mecanwaith bob amser wedi bod yn ei le i'r cyhoedd gymryd rhan mewn cyfarfod Craffu/Cyngor, efallai nad yw'r ddogfen wedi bod mor weladwy ag y gallai fod. Unwaith y bydd y Strategaeth wedi'i chymeradwyo, bydd gwelliannau'n cael eu gwneud i gyfeirio trigolion ati a'i rhannu'n well ar dudalennau gwe ein Cyngor, megis baner ar y wefan a chyfeiriadau at dudalennau Craffu a dogfennau cyfranogiad y cyhoedd. Ychwanegodd ymhellach y bydd hyrwyddo Pwyllgorau drwy gyfryngau cymdeithasol hefyd yn cael ei adolygu, ac unwaith y byddwn ni wedi sicrhau ymgysylltiad cyhoeddus, bydd modd dangos effaith yr ymgysylltu.

Holodd Aelod pa waith sydd wedi'i wneud i ddeall yr heriau sydd ynghlwm ag addysgu'r cyhoedd am broses ddemocrataidd y Cyngor, yn ogystal â holi a ydyn ni'n gwneud digon o waith gyda phobl ifanc.

Ymatebodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth bod nifer o fentrau mae modd i ni eu datblygu i gynnwys pobl ifainc mewn Democratiaeth. Er enghraifft, gallen ni

rannu ein Rhaglenni Gwaith gyda'r Cyngor Ieuenctid fel bod modd iddo nodi eitemau o ddiddordeb a gwneud cais i annerch pwyllgor/cyfarfod a siarad ar yr eitem. Ychwanegodd fod darparu polau ar y Cyfryngau Cymdeithasol i'r cyhoedd ymateb iddyn nhw hefyd yn cael ei ystyried.

Gofynnodd y Cadeirydd pa gyfleoedd ymgysylltu y mae'r Cyngor yn eu darparu i'r cyhoedd er mwyn caniatáu iddyn nhw ymgysylltu â'r Cyngor a derbyn gwybodaeth mewn modd tryloyw. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, ei bod hi'n ofynnol i'r Cyngor adolygu'r Strategaeth Deisebau, sy'n ddull a ddefnyddir yn gyffredin i'r cyhoedd roi eu barn i'r Cyngor ar fater penodo. Bydd y gwaith yma'n edrych ar symleiddio'r dull ar gyfer y cyhoedd. Ychwanegodd y bydd cyfansoddiad hawdd ei ddarllen hefyd ar gael i'r cyhoedd ac mae ymgysylltu trwy ddefnyddio polau ar gyfryngau cymdeithasol hefyd yn cael ei ystyried. I gloi, dywedodd y bydd y Cyngor hefyd yn defnyddio'r system weddarlledu i greu dolenni i'n cyfrifon cyfryngau cymdeithasol pan fydd cyfarfod yn cael ei ddarlledu'n fyw.

Gwnaeth yr Aelodau sylwadau am Gynghorwyr yn defnyddio eu tudalennau cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu â'r cyhoedd, gan nodi nad yw rhai Aelodau mor hyderus i ddefnyddio'r llwyfannau yma ag eraill oherwydd yr effeithiau negyddol posibl y gallai hyn ei gael.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y bydd y garfan Gyfathrebu yn darparu hyfforddiant i unrhyw Aelodau sy'n dymuno defnyddio cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu â thrigolion, a dywedodd fod canllawiau arfer gorau ar waith. Anogodd yr Aelodau i fanteisio ar y cyfleoedd hyn gan nad oes gan neb berthynas well â'u cymunedau nag Aelodau Etholedig.

**Awgrymodd** un Aelod y gellid cynnwys manylion cyswllt gwasanaethau i gwsmeriaid o dan adran "cysylltwch â ni" yn y Strategaeth, ac y dylai hyn gael ei adlewyrchu yn y ddogfen hawdd ei darllen pan gaiff honno ei llunio hefyd.

**PENDERFYNWYD:** Awdurdododd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, i adlewyrchu sylwadau'r Aelodau yn y Strategaeth Ddrafft ar Gyfranogiad y Cyhoedd cyn ei chyflwyno er cymeradwyaeth y Cyngor.

## 5 Cynllunio Rhaglen Waith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, yr adroddiad i'r Aelodau er mwyn rhoi cyfle i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu adolygu Rhaglen Waith y Cabinet i benderfynu a oes eitemau yr hoffai eu cynnwys yn y Rhaglen Waith ar faterion Craffu. Roedd hefyd yn gyfle i ystyried eitemau i'w cyfeirio at y Pwyllgorau Craffu thematig, at ddibenion Rhag-graffu a'u cefnogi wrth benderfynu ar Raglen Waith.

Atgoffwyd yr Aelodau y bydd y Rhaglenni Gwaith Craffu yn parhau i fod yn ddogfennau "gwaith" hyblyg, a fydd yn caniatáu ar gyfer mabwysiadu agwedd fwy hyblyg a chydnabod anghenion a blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg, gan roi cyfle i Weithgorau Craffu gael eu datblygu a darparu hyfforddiant yn ôl yr angen.

Hysbysir y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, lle mae eitemau wedi'u nodi'n rhan o'r adran diweddariadau parhaus yn rhaglen waith y Cabinet, y bydd amserlenni penodol yn cael eu nodi a bydd cyfle'n cael ei roi i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu benderfynu a ddylid ychwanegu materion o'r fath i'w Raglen Waith i'w hystyried.

Gofynnodd Aelod a fyddai Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSGA) yn mynd i'r Pwyllgor Craffu Addysg a Chynhwysiant fel y mae wedi'i wneud yn flynyddol o'r blaen. Gofynnodd yr Aelod hefyd a allai adroddiad ehangach ddod gerbron y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu gyda thargedau a dangosyddion cyflawniad penodol, teimlai'r Aelod fod hyn yn angenrheidiol i amlygu pwysigrwydd y gwaith ar Gynllun y Gymraeg.

Ymatebodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y bydd y Pwyllgor Addysg yn ystyried y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg mewn cyd-destun Addysg, ond gallem hefyd ddod ag adroddiad gerbron y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar adeg briodol fel y gall Aelodau gael eu diweddaru a chraffu ar y gwaith partneriaeth o ran Cymraeg mewn Addysg.

Gofynnodd yr Aelodau i'r eitemau canlynol gael eu dwyn ymlaen hefyd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu eu hystyried ar adeg briodol.

- Tomenni Glo
- Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Gweithio Mewn Partneriaeth
- Pwysau sy'n wynebu'r Gyfadran Gwasanaethau Cymdeithasol

**PENDERFYNWYD:**

Cytuno ar y materion sy'n codi o Raglen Waith y Cabinet i'w cynnwys yn Rhaglen Waith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023/24 a'r materion a godwyd gan Aelodau, fel uchod.

Cytuno i gynnwys y pynciau a restrir yn 6.1 o'r adroddiad yn Rhaglen Waith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu neu, lle bo angen, cyfeirio materion o'r fath i'r Pwyllgorau Craffu thematig.

## 6 Materion Brys

Doedd dim materion brys.

## 7 Adolygiad y Cadeirydd a dod â'r cyfarfod i ben

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.37 pm**

**Y Cynghorydd J Edwards**
**Cadeirydd.**